



QWCC1-036_18C

08/02/2018

Annwyl Swyddog Cyfrifol

Heddiw, rydym yn cyhoeddi ein hadroddiad ar ein Hadolygiad Sector o Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig: Adeiladu'r Dyfodol.

Yn yr adroddiad hwn rydym yn amlinellu cyd-destun, methodoleg a chanfyddiadau ein hail Adolygiad Sector. Rydym hefyd yn gwneud y canlynol:

- amlinellu rhai camau gweithredu y byddwn yn eu cymryd yn y byrdymor ('cam 1'), yng ngoleuni canfyddiadau'r adolygiad
- nodi ein cynigion ar gyfer diwygio cymwysterau Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig yng Nghymru yn y tymor hwy.

Rydym yn cynnal ymgynghoriad ar-lein ar y cynigion hyn ar gyfer y tymor hwy o 8 Chwefror i 13 Ebrill a byddem yn eich annog i ymateb i hwn, yn enwedig os yw eich corff dyfarnu yn cyflwyno cymwysterau yn y sector hwn.

Hoffwn hefyd dynnu eich sylw at ddau o'r camau gweithredu byrdymor (a nodir ar dudalennau 71 i 73 o'r adroddiad), sy'n arbennig o berthnasol i gyrrff dyfarnu. Mae'r cyntaf, Cam Gweithredu 1, yn ymwneud â phryderon ynghylch asesu.

Cam Gweithredu 1

*Byddwn yn ysgrifennu at y cyrff dyfarnu ar gyfer cymwysterau i ddysgwyr 16-19 oed a chymwysterau NVQ yn y sector, gan eu hannog i ystyried canfyddiadau'r adroddiad ym mhennod 6, sy'n ymwneud â'r ffordd yr **asesir** eu cymwysterau, nodi a yw'r canfyddiadau yn gymwys iddynt ac, os ydynt yn gymwys, gynnig sut y byddant yn ymateb iddynt.*

Byddwn yn tynnu sylw, yn arbennig, at y canlynol:

- y baich asesu ac a yw'n gymesur ac yn rhesymol;
- y mathau o gwestiynau sy'n anodd eu deall a ddefnyddir o fewn asesiadau ysgrifenedig, gan gynnwys darnau cyfan o safonau galwedigaethol;
- y nifer fach o sesiynau arsylwi ar ddysgwyr ar y safle a gofnodir ar gyfer cymwysterau NVQ;
- y defnydd o ffotograffau o waith wedi'i gwblhau fel tystiolaeth ar gyfer cymwysterau NVQ lle na ellir



cadarnhau cyfraniad y dysgwr yn ddigonol;

- dulliau ticio blychau o gofnodi cymhwysedd, na ellir eu dilysu;*
- y graddau y defnyddir asesiadau ysgrifenedig i ddangos gwybodaeth sylfaenol ar gyfer cymwysterau NVQ;*
- Swyddogion Sicrhau Ansawdd allanol yn gosod gofynion anghyson ar ganolfannau;*
- y graddau y mae aseswyr yn ddigon cymwys – a chyfredol – o ran eu harbenigedd technegol i wneud penderfyniadau asesu cadarn.*

Yng ngoleuni'r cam gweithredu hwn, rydym felly yn annog y cyrff dyfarnu hynny sy'n cyflwyno cymwysterau adeiladu a/neu wasanaethau adeiladu mewn lleoliadau 16-19 oed a/neu brentisiaeth i ystyried y canfyddiadau a'r materion a nodir uchod yn ofalus, ac yn fanylach yn yr adroddiad. Os byddwch o'r farn bod unrhyw un o'r canfyddiadau hyn yn gymwys i gymwysterau rydych yn eu dyfarnu yng Nghymru, gofynnwn i chi roi gwybod i ni am y camau y byddwch yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r canfyddiadau hyn (drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost construction@qualificationswales.org) erbyn 30 Ebrill 2018. Byddwn yn ystyried unrhyw gyflwyniadau a dderbynnir ac yn nodi unrhyw gamau dilynol y gallwn eu cymryd.

Mae Cam Gweithredu 2 yn ymwneud yn bennaf â chynnwys cymwysterau ac mae wedi'i anelu at y cyrff yn y sector yn bennaf. Fodd bynnag, mae hefyd yn berthnasol i gyrff dyfarnu a byddem yn eich annog i ystyried y canfyddiadau hyn hefyd. Yn yr un modd, os byddwch yn nodi unrhyw gamau y byddwch yn eu cymryd (neu gallech fod wedi'u cymryd yn ddiweddar) i fynd i'r afael â'r canfyddiadau penodol hyn, rhwch wybod i ni erbyn 30 Ebrill 2018 drwy ddefnyddio'r un cyfeiriad e-bost. Unwaith eto, byddwn yn ystyried unrhyw gyflwyniadau a dderbynnir ac yn nodi unrhyw gamau dilynol y gallwn eu cymryd.

Cam Gweithredu 2

Byddwn yn ysgrifennu at y cyrff yn y sector (gan gynnwys CITB), gan eu hannog i ystyried, ar y cyd â chyrff dyfarnu, y pryderon a godir ym mhenodau 4 a 5 o'r Adolygiad ynghylch cynnwys y cymwysterau a'r safonau galwedigaethol cenedlaethol. Byddai'r materion i'w hystyried yn cynnwys y canlynol:

- p'un a ellid symleiddio'r safonau galwedigaethol gorfodol sy'n ofynnol ar gyfer pob galwedigaeth, er mwyn sicrhau eu bod yn hanfodol ac yn debygol o gael eu cyflawni gan ddysgwyr mewn amrywiaeth eang o weithleoedd;*
- sut y gallent sicrhau bod cymwysterau yn ei gwneud yn ofynnol i dechnolegau, offer, deunyddiau a phrosesau cyfredol gael eu defnyddio;*
- sut y gallent sicrhau bod dysgwyr yn deall y gwahaniaethau rhwng yr offer, y deunyddiau, y prosesau a'r sgiliau/gwybodaeth sydd eu hangen ar gyfer adeiladau traddodiadol a modern;*
- sut y gallent fynd i'r afael â phroblem ailadrodd cynnwys rhwng lefelau'r cymwysterau a'r ffaith nad oes digon o wahaniaethu rhwng lefelau, gan gynnwys y nifer fawr o unedau lefel 2 yng nghymwysterau lefel 3;*
- p'un a yw'n briodol cynnwys, mewn rhai cymwysterau ar lefel 3, uned ar lefel 5 y dehonglir fel arfer ei bod yn gofyn am sgiliau goruchwyllo;*
- p'un a yw'r strategaethau asesu cyfredol sy'n ymwneud yn benodol â'r diwydiant (sy'n rhoi arweiniad i gyrff dyfarnu ar asesu cymwysterau NVQ yn y sector) yn dal i fod yn briodol yn sgil canfyddiadau'r Adolygiad;*
- sut y gall cyrff dyfarnu fynd i'r afael â'r diffyg cydlyniad rhwng Diplomâu Trydanol i Ddysgwyr 16-19 oed a llwybr NVQ.*

Er bod yr adroddiad yn ymwneud yn benodol â chymwysterau a'r system gymwysterau ym maes Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig, efallai na fydd rhai o'r canfyddiadau yn anghyfarwydd i gyrff dyfarnu sy'n cynnig cymwysterau galwedigaethol eraill. Byddwn felly yn annog unrhyw un sy'n gwneud hynny i ddarllen yr adroddiad ac ystyried a oes unrhyw un o'r canfyddiadau yn gymwys yn yr un modd i'ch cymwysterau mewn sectorau eraill.

Gobeithio y bydd yr adroddiad yn llawn gwybodaeth ac yn ddiddorol i chi. Cofiwch ymateb i'r ymgynghoriad: edrychwn ymlaen at dderbyn eich ymateb i'r ymgynghoriad – a, lle y bo'n briodol, eich cynlluniau gweithredu.

Yn gywir



Philip Blaker

Prif Swyddog Gweithredol